**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A MENTER**
**15 IONAWR 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Llun, 15 Ionawr 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: David Cox, Jean Davies, Ron Davies, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, George Hardcastle, Ray Hughes, Ted Palmer, Mike Reece, Paul Shotton a David Wisinger

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Sian Braun ac Adele Davies-Cooke, a'r Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet dros Ddatblygiad Economaidd

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Patrick Heesom a Christine Jones, yn bresennol fel arsylwyr

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Bernie Attridge, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Dai; Prif Swyddog (Cymuned a Menter); Rheolwr Asedau Tai; Cyfrifydd ac Uwch Swyddog Tai Gwarchod

Prif Weithredwr (ar gyfer cofnod rhif 45)
Rheolwr Gwasanaeth, Cefnogaeth Fusnes (ar gyfer cofnod rhif 46)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 42. SYLWADAU AGORIADOL

Fel a awgrymwyd gan y Cynghorydd Hardcastle, cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn anfon cerdyn a blodau i wraig y diweddar Gynghorydd Hampson yn dilyn colli eu mab.

## 43. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Ted Palmer gysylltiad personol ag Eitem rhif 4 ar y Rhaglen, 'Cyfrif Refeniw Tai 2018-19' gan ei fod yn denant Cyngor.

## 44. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd ac 20 Rhagfyr 2017.

Materion yn Codi

Nodwyd bod cofnodion 15 Tachwedd 2017 eisoes wedi'u cymeradwyo yn y cyfarfod blaenorol. Cytunodd y Prif Swyddog i drafod mater a godwyd gan y Cynghorydd Hardcastle y tu allan i'r cyfarfod.

O ran cofnod rhif 38, byddai'r Prif Swyddog yn gofyn am ddiweddariad am y gwasanaeth siopa symudol ac yn ymateb i'r Pwyllgor.

O ran cofnod rhif 39, cyfeiriodd y Cynghorydd Reece at fanylion cyswllt tirfeddiannwr preifat roedd wedi'u trosglwyddo i swyddogion a dywedwyd wrtho byddai hyn yn cael ei ddilyn.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 45. CYFRIF REFENIW TAI 2018-19

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor i ystyried Cyllideb Ddrafft y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2018/19 a Chynllun Busnes 30 Mlynedd y Cyfrif Refeniw Tai.

Rhoddodd Rheolwr Asedau Tai a'r Cyfrifydd gyflwyniad i gwmpasu'r canlynol:

- Cyflawniadau 2017/18
    - Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)
    - Darpariaeth tai Cyngor
- Cynllun busnes 30 mlynedd
- Cyllideb 2018/19
    - Incwm
    - Arbedion effeithlonrwydd
    - Rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru
- Gweithgarwch yn y dyfodol

Fel rhan o'r cyflwyniad, dangoswyd ffotograffau a oedd yn dangos y cyflawniad ar waith mewnol, gwaith allanol a gwaith amgylcheddol yn rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru.

Croesawodd Cynghorydd Shotton gynnydd ar Safon Ansawdd Tai Cymru a chanmolodd ymateb prydlon y Cyngor o ran rhoi sicrwydd i denantiaid am dri bloc fflatiau uchel y sir yn dilyn y digwyddiad yn Nhŵr Grenfell. Roedd yr adeiladau yn y Fflint yn dri o ddim ond saith yng Nghymru lle roedd systemau chwistrellu mewnol eisoes wedi'u gosod ac roedd trefn archwilio diogelwch y Cyngor wedi bodloni safonau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Siaradodd Cynghorydd Dolphin am yr angen i gynnwys parcio digonol mewn datblygiadau newydd i ddiwallu anghenion preswylwyr gyda mwy nag un cerbyd. Eglurodd Swyddogion, fel rhan o'r rhaglen amgylcheddol, roedd safleoedd fel plotiau garejys nad ydynt yn cael eu defnyddio yn cael eu nodi i drosi yn lleoedd parcio. Gan ymateb i gwestiynau pellach, roedd gosodiadau ystafelloedd gwlyb yn berthnasol yn bennaf i lety gwarchod, fodd bynnag roedd hyblygrwydd yn y rhaglen i wneud darpariaeth ar gyfer addasiadau'r dyfodol i gefnogi tenantiaethau oes. Cytunodd y Rheolwr Asedau Tai i roi gwybod i Aelodau lleol am asesiadau 'ar droed' yn eu wardiau i'w galluogi i gyfranogi, pe baent am wneud hynny.

Yn ystod trafodaethau am renti, dywedodd Cynghorydd Dolphin ei bod yn bwysig i denantiaid fod yn ymwybodol o opsiynau talu. Eglurwyd bod rhenti targed yn berthnasol i 17% o denantiaid y Cyngor a bod y cynnig gan yr Aelod Cabinet ac Arweinydd y Cyngor i gyfyngu ar gynnydd y rhent i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr o ganlyniad i bryderon am fforddiadwyedd yn yr hinsawdd bresennol. Ni fyddai'r Cyngor yn cael unrhyw gosbau wrth weithredu cynnydd is na'r hyn a argymhellir gan bolisi rhenti'r Llywodraeth.

Dywedwyd wrth Aelodau y byddai'r rhaglen y gofynnwyd amdani ar gyfer gwaith a gynlluniwyd ar gyfer pob ward yn cael ei ddatblygu gan Sean O'Donnell, yn dilyn ymadawiad y Rheolwr Tîm Gwaith Cyfalaf.

Rhoddodd Cynghorydd Hardcastle ganmoliaeth i'r gwelliannau yn y gwasanaeth Tai dros flynyddoedd diweddar. Gan ymateb i ymholiadau, eglurodd swyddogion y dull o ran ailymweld ag eiddo lle nad oedd gwaith wedi'i gwblhau oherwydd gwrthod tenantiaid neu ddiffyg mynediad. O ran taliadau gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau golchdy, byddai swyddogion yn ymgysylltu â thenantiaid mewn llety â galw isel am wasanaethau i bennu'r canlyniad cywir. Cytunodd y Cyfrifydd i ymateb ar wahân i ddarparu nifer y tenantiaid a aeth i'r llys am beidio talu rhenti.

Yn dilyn cwestiynau gan y Cynghorydd Palmer, eglurodd y Rheolwr Asedau Tai fod gwaith Safon Ansawdd Tai Cymru yn cael ei lywio gan yr arolygon o gyflwr y stoc a fyddai'n cael sylw eto tua diwedd y rhaglen. Diolchodd y Cynghorydd Palmer i Swyddogion am eu help o ran mynd i'r afael â materion ymddygiad gwrthgymdeithasol.

O ran darpariaeth parcio ychwanegol, gofynnodd y Cynghorydd Wisinger am nifer y safleoedd garej lle roedd rhent yn daladwy a chyfeiriodd at nifer o safleoedd garej yn ei ward nad oeddent fel pe baent yn cael eu defnyddio bellach. Dywedodd fod posibl trosi rhai ardaloedd glaswelltog yn lleoedd parcio, gan arbed ar waith torri glaswellt. Eglurodd Swyddogion y byddai adroddiad am y rhaglen amgylcheddol, gan gynnwys adolygiad o safleoedd garej, yn cael ei rannu tua mis Mai 2018. Roedd penderfyniadau am opsiynau ar gyfer y safleoedd hynny yn destun ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet ac argaeledd cyllid.

Cododd y Cynghorydd Cox bryderon am effaith tai perchnogaeth breifat a oedd wedi bod yn wag am gyfnod hir, a chynghorwyd ei fod yn cyfarfod â Jenny Prendergast yn y tîm Iechyd yr Amgylchedd.

Dywedodd y Cynghorydd Hughes fod darpariaeth annigonol o ran lleoedd parcio oddi ar y ffordd yn ei ward wedi arwain at broblemau traffig oherwydd bod cerbydau wedi parcio ar briffyrdd. Dywedodd y Cynghorydd Attridge fod rhai tenantiaid wedi cymryd penderfyniad i greu darpariaeth oddi ar y ffordd eu hunain. Awgrymodd fod unrhyw bryderon am ardaloedd penodol yn cael eu codi gyda swyddogion i'w hystyried fel rhan o'r broses gynllunio.

Awgrymodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr newidiadau bach i eiriad yr argymhelliad cyntaf a'r ail argymhelliad i adlewyrchu cefnogaeth y Pwyllgor yn well. Wrth bleidleisio, derbyniwyd y rhain.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Ar ôl ystyried yr adroddiad, bod y Pwyllgor yn cefnogi cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2018/19 a'r Cynllun Busnes fel a nodir yn yr atodiadau;

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi argymhellion yr Aelod Cabinet ac Arweinydd y Cyngor o ran gosod cynnydd rhent o 3% (a hyd at neu llai £2), gyda rhenti targed wedi'u defnyddio ar gyfer tenantiaethau newydd, fel cynnydd mwy fforddiadwy na fformiwla Polisi Rhenti Llywodraeth Cymru a fyddai'n gosod cynnydd o 4.5% (a hyd at neu llai £2);

(c) Bod y Pwyllgor yn cefnogi cynnydd o £1 yr wythnos mewn rhenti garejys a chynnydd o £0.20 yr wythnos mewn rhenti plotiau garejys; a

(d) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r Rhaglen Gyfalaf Cyfrif Refeniw Tai arfaethedig ar gyfer 2018/19 fel y nodwyd yn Atodiad D.

## 46. ADRODDIAD ARCHWILIO UN LLWYBR MYNEDIAD AT DAI

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth, Cefnogaeth Cwsmeriaid adroddiad am ganlyniad adroddiad archwilio am reolaeth y gofrestr tai a dyrannu eiddo'r Cyngor sy'n codi o gyflwyno'r Un Llwybr Mynediad at Dai.

Nododd yr Archwiliad Mewnol 13 cam gweithredu ac roedd naw ohonynt wedi'u gweithredu'n llawn a dau ohonynt yn gysylltiedig â pholisi rhanbarthol – i gael eu gweithredu erbyn mis Mehefin 2018. Roedd yr adroddiad yn rhoi eglurhad manwl am gynnydd o ran y ddau gam gweithredu sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd o ran cwblhau adolygiadau cyfnodol o fewn amserlenni a chanslo apwyntiadau oherwydd na chafwyd tystiolaeth. Gobeithiwyd y byddai'r camau gweithredu yn darparu sicrwydd i Aelodau am ffyrdd gwell o weithio i wneud defnydd gwell o adnoddau cyfyngedig a chydymffurfio â'r argymhellion.

Yn dilyn cwestiwn gan y Cadeirydd, eglurwyd bod eiddo yn cael eu dyrannu yn nhrefn dyddiad fel arfer, yn unol â bandio. Roedd nifer fach o resymau pam gellid pasio ymgeiswyr, fel math o eiddo, materion hygyrchedd neu lle roedd angen gosod yn sensitif. Eglurodd y Prif Swyddog fod amrywiaeth o ddatblygiadau TGCh wedi'u hamlygu yn yr adroddiad i gefnogi gweithio awtomataidd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dolphin at y cam gweithredu ar amserlenni ar gyfer canslo ceisiadau a dywedwyd wrtho fod y lefel risg gwyrdd (isel) wedi'i bennu gan Archwilio Mewnol gan nad oedd yn bosibl dyrannu eiddo heb y dystiolaeth angenrheidiol.

Cynigiodd y Cadeirydd fân ddiwygiad i'r penderfyniad ac fe'i dderbyniwyd.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl adolygu'r adroddiad, bod gan y Pwyllgor sicrwydd bod pob cam gweithredu risg uchel wedi'u gweithredu'n llawn a bod pob cam gweithredu sy'n weddill hefyd naill ai wedi'u cwblhau neu ar waith.

**47. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Wrth gyflwyno'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol presennol i'w ystyried, dywedodd yr Hwylusydd y byddai'r eitem ar adolygu safleoedd garej (a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod) yn cael ei drefnu ar gyfer mis Mai. Ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau pellach.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei newid; a

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

**48. SYLWADAU I GLOI**

Darllenodd y Cadeirydd ddatganiad lle canmolodd y Prif Swyddog a'i thîm am eu llwyddiant o ran sicrhau £2.7m gan y gronfa Cartrefi Clyd i osod systemau gwres canolog a mesurau effeithlonrwydd ynni mewn eiddo yn Sir y Fflint. Dywedodd y Prif Swyddog fod cydweithwyr o'r portffolio Cynllunio a'r Amgylchedd wedi bod yn rhan o weithio ar y cais.

**49. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a gorffennodd am 3.50pm)

…………………………
**Cadeirydd**